# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 7FED TACHWEDD, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 31 Hydref 2019)

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams
Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams
Eric M. Jones
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Orffennaf 2019 fel rhai cywir

**5. CYNLLUN ARFOR** 9 - 10

I ystyried yr adroddiad

**6. BYW'N IACH**

I dderbyn trosolwg o sut mae'r gwasanaeth yn parhau i roi blaenoriaeth i'r Gymraeg

**7. DYNODIADAU IAITH** 11 - 13

I ystyried yr adroddiad

**8. ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD GYMRAEG 2018-19** 14 - 18

I ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Iaith

# PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH 9 GORFFENNAF 2019

**YN BRESENNOL:** Olaf Cai Larsen (Is-gadeirydd).

**Y CYNGHORWYR:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Alwyn Gruffydd, Charles Wyn Jones, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, Eirwyn Williams, Elfed Williams,

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Gwenllïan Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gweithle), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), (Rhonwen Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**ERAILL A WAHODDWYD:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Mewn perthynas ag eitem saith (7) ar y rhaglen, Debbie A W Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

Ar gyfer eitem wyth (8), Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet – Iaith).

1. **ETHOL CADEIRYDD**
   **Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Elin Walker Jones yn Gadeirydd am y cyfnod 2019/2020.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**
   **Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn Is Gadeirydd am y cyfnod 2019/20.

   Diolchwyd i'r cyn gadeirydd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd am gadeirio dros y ddwy flynedd diwethaf.

3. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Judith Humphreys, Elin Walker Jones a John Pughe Roberts.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **MATERION BRYS**
   Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 1af o Fai 2019 fel rhai cywir.

Gwiriodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd benderfyniad ar eitem saith (7) *'Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd - (Targedu Pobl Ifanc oedran 15+',* ynglŷn â llythyr i gymryd camau pellach i ennyn diddordeb ac ymrwymiad tiwtoriaid Grŵp Llandrillo Menai. Ymatebodd y Swyddog Datblygu Iaith yn y Gweithle, ei bod wedi gyrru llythyr i'r Grŵp, ond nad oedd adborth wedi ei dderbyn. Penderfynwyd yn y pwyllgor diwethaf bod aelod o'r pwyllgor am ysgrifennu hefyd, nid yw hyn wedi ei gyflawni.

**7. YMGYNGHORIAD CSGA LLYWODRAETH CYMRU:**

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg ar yr Ymgynghoriad Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a chanllawiau drafft (CSGA).

Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau i'w cynnwys fel rhan o ymateb ffurfiol Gwynedd i'r ymgynghoriad. Nodwyd fod angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn dechrau Medi 2019.

**Sylwadau gan Aelodau:**

- Cyflwyniad diddorol.
- Nodwyd pryder pam nad ydym yn datblygu addysg Gymraeg yn barod?
- Croesawu bod y ffactor dileu mesur a galw yn cael ei gyflwyno.
- Cwestiynwyd lle mae'r Canolfannau Iaith â'r Siarter Iaith yn yr ymgynghoriad?
- Cwestiynwyd a yw'r ymgynghoriad hyn yn cyfeirio at Addysg Gymraeg ynteu addysg ddwyieithog?
- Cwestiynwyd beth mae "trochi'r Gymraeg" yn ei olygu?
- Nodwyd siom nad oes sôn am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r ymgynghoriad hwn.
- Nodwyd bod angen i'r ymgynghoriad ymdrin â'r iaith chwarae yn yr ysgol a gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae lle hefyd i sicrhau rôl i lywodraethwyr, cyfeillion yr ysgol.
- Awgrymwyd fod cyfle i sefydlu pencampwyr Cymraeg.
- Nodwyd pryder am faint o siaradwyr Cymraeg sydd yng Ngwynedd, a phryder am gynnydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.
- Yn ogystal, codwyd yr angen am weithlu ac athrawon Cymraeg gan addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Manylodd y Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg ar y sylwadau. Cadarnhaodd mai drafft yw'r ymgynghoriad ar hyn o bryd ac mae croeso i unrhyw un roi eu hadborth ar yr ymgynghoriad erbyn dechrau Medi 2019.

Ymhelaethodd ar bwyntiau penodol.

- Mae'r Canolfannau Iaith yn cael eu cyfarch dan y deilliannau a'r dilyniant a throchi.
- Nid yw'r CSGA a'r rheoliadau newydd yn newid Polisi Iaith Gwynedd
- Nid oes diffiniad penodol ar drochi addysg, mae trochi yn digwydd mewn ffyrdd gwahanol yn siroedd Cymru. Yng Ngwynedd rydym yn ystyried y cyfnod sylfaen, oherwydd mae yn trochi plant tair i saith oed trwy gyfrwng y Gymraeg; plant rhwng

saith a 14 yn cael mynediad i ganolfannau iaith i gael eu trochi yn y Gymraeg er mwyn ymdopi mewn ysgolion prif ffrwd.

- Mae CSGA yn eu cyfanrwydd a Llywodraeth Cymru yn gosod yr holl ddyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol yn ymwneud â'r maes yma. Rhaid meddwl am bwy sydd yn recriwtio staff yn ysgolion Gwynedd, y Llywodraethwyr yw'r rhain, ac fell mae'r pwynt atebol yn cyflwyno bod gennym waith arfogi i'w wneud gyda'r Llywodraethwyr, fel codi ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau.
- Defnydd anffurfiol o ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol, mae posib llunio canllawiau ar sut fyddai rhywun yn annog defnydd partneriaeth iaith, mae yn rhan newydd o ddialog canllawiau CSGA, ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau o amgylch yr ysgol o fewn y cymunedau. Felly rhaid meddwl beth yw adnodd o weithio mewn partneriaeth gyda Menter Iaith, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a mudiadau eraill. Pryder sydd yn wynebu'r ysgolion ac sydd yn codi'r cwestiwn ydyw'r mudiadau yma yn mynd i bwyso yn ariannol / adnoddau ar yr ysgolion, rhaid meddwl pa gyfraniad mae'r mudiadau yma yn gallu cyfrannu a pwy fydd yn cydlynu?
- Gwaith manylu ar yr ymgynghoriad yn dechrau yng Ngwynedd fis Medi 2019 ymlaen. Gan fod yr amserlen yn gyfyng mewn amser i dderbyn sylwadau, mae'r adran Addysg wedi gofyn am estyniad, ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.
- Gydag ymateb i sylwad y saith deilliant, y cwestiwn sydd yn codi pryder yw, yn lle mae Cymru yn mynd i recriwtio'r athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? Yr her yw cynyddu addysgu'r iaith o fewn yr ysgolion, dyma'r darlun mae'r weledigaeth yng Nghymru yn eu hwynebu, ar hyn o bryd nid yw yn berthnasol i Wynedd.

Atodir linc i'r ymgynghoriad fel gwybodaeth er mwyn cyflwyno sylwadau
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-05/dogfen-ymgynghori-rheoliadau-cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-cymru-2019-ar-canllawiau-drafft_0.pdf

**DERBYNIWYD** y wybodaeth a'r adroddiad a nodwyd bod hwn yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir.

**8. ADRODDIAD AELOD CABINET:**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ddiweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

**Sylwadau:** Mynegodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, buasai o werth rhoi gwahoddiad i Aled Roberts, y Comisiynydd newydd i fynychu'r Pwyllgor nesaf. Aelod Cabinet dros addysg yn mynd i gysylltu ag ef.

**PENDERFYNWYD:**
Derbyn yr adroddiad.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU IAITH 2018-19:**

Adroddiad sydd yn cael ei gyhoeddi yn flynyddol. Cyflwynir yr adroddiad gan y Swyddog Datblygu Iaith Gweithle, a Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, gan adrodd ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff y Cyngor a sut i ddatblygu eu sgiliau iaith,

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet Mehefin 2019 i gael ei gymeradwyo ac i'w llwytho ar wefan y Cyngor yn gyhoeddus.

Adroddiad sydd yn adrodd ar safonau penodol ar sgiliau gweithwyr yn yr iaith Gymraeg. Cwestiwn sydd yn codi yn aml, beth yw sefyllfa hyfforddiant o ran staff pob adran o'r Cyngor heblaw adran addysg ar hyn o bryd? Rhaid pwysleisio nid yw'r adroddiad yn cynnwys GWE nag Asiantaeth Cefnffyrdd gan eu bod yn bartneriaid rhanbarthol.

Eleni mae'r adran wedi gallu edrych yn ôl ar bedair (4) blynedd o ddata ynglŷn â safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau gosodwyd ar y Cyngor gan y Comisiynydd yn y Gymraeg. Gweler linc ar y wefan: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu%27r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf> ar y Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023, ymgais i adnabod y prif heriau a chyfleoedd sydd yn wynebu'r Gymraeg.

**Sylwadau gan yr Aelodau:**

- Ydyw ymgeiswyr yn rhoi eu gwir ymateb i'r cwestiwn a ofynnir yn y ffurflen ymgeisio am swydd, ar siarad a deall yr iaith Gymraeg?
- Sut mae asesu effaith a data?
- Data gweithwyr Cefnogol – rhai ddim yn siarad Cymraeg?
- Canolfannau Hamdden?
- Beth yw diffiniad iaith hyfforddiant?
- Posib cynnig darpariaeth cyfieithu?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod gan y Swyddog Datblygu Iaith Gweithle, a Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg, dengys bod modd i chwi fel aelodau o'r pwyllgor hwn rhoi mewnbwn gydag awgrymiadau / argymhellion i wella ar yr adroddiad flwyddyn nesa.

Wrth gyfweld yr ymgeiswyr, mae posib cymharu eu sgiliau ieithyddol ar eu safon cyfweld gan feirniadu ar eu hymatebion ieithyddol wrth gymharu'r canlyniadau gyda'r sydd swydd ddisgrifiad.

Mynegwyd bod yr uned yn gweithio ar y cyd gyda'r Swyddog Cydraddoldeb yn ystod y misoedd diwethaf ar asesu effaith data. Mae nifer o ffactorau wedi arwain at beth rydym yn ceisio'i gyflawni a sut i wella'r asesiadau.

Ychwanegwyd pan ddaeth y safonau i rym ynglŷn â diffiniad iaith ag hyfforddiant, roedd nifer yn cyfeirio at lunio polisi, teimlad y swyddogion ar y pryd oedd gweithio ar y ffordd orau o fodloni'r safonau. Daethpwyd adroddiad sicrwydd y Comisiynydd o flaen y pwyllgor Iaith yr Haf diwethaf i dynnu sylw at y mater o fodloni'r asesiadau iaith a chydraddoldeb, gan feddwl am y ffordd orau i weithredu. Nid oedd modd gweithio i'r rhaglen o ran y gofyn, a gofynnwyd i chwi fel aelodau ystyried y polisi ar effaith orau ar yr iaith.

Yn ddiweddar mae Cynllun Cydraddoldeb yn edrych yn ôl ar yr asesiadau er mwyn gweld os oes gwelliannau i wneud ac os ydyw'r asesiadau yma yn cael eu cynnal yn y ffordd gywir, mae hyn yn waith datblygol wedi ei ymrwymo gyda phenaethiaid a rheolwyr y Cyngor.

Nodwyd bod data gweithwyr Cefnogol yn yr adran addysg a gofal sydd yn siarad Cymraeg wedi codi. Rhaid ystyried y ffaith mai'r adrannau yma sydd yn cyflogi'r gweithwyr yn uniongyrchol. Y rhwystrau sydd yn wynebu ni fel corff yw recriwtio i ofynion sgiliau perthnasol y swydd sydd yn cael eu cymeradwyo ar wahân i allu cyflwyno

drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'r adrannau i weld pwy sydd angen hyfforddiant, gan flaenoriaethu staff y rheng flaen yn gyntaf.

Cyfeiriwyd bod y canolfannau hamdden wedi eu cynnwys yn yr adroddiad eleni.

Canfuwyd mai diffyg arbenigwyr allanol yn methu'r Gymraeg sydd yn achosi her i hyfforddi cyrsiau allanol. Rhaid ymchwilio i ddarparu darlun cywir ar gyfleusterau hyfforddi allanol cyn y gallem gynnig darpariaeth cyfieithu.

**PENDERFYNIAD:**

Derbyn yr adroddiad.

**10. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION MAES Y GYMRAEG:**

Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am gwynion ac enghreifftiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor gan y Swyddog Datblygu Iaith yn y Gweithle.

Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gydnabod llwyddiannau gweithwyr y Cyngor, sydd wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn wrth harwyddo'r Gymraeg ac yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn gwasanaeth uchel drwy gyfrwng yr iaith.

Mynegwyd bod rheolwyr unedau yn cymryd y cyfrifoldeb i fagu hyder eu gweithwyr wrth iddynt weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Darllenwyd ar y cwynion ac ymholiadau ar y gwasanaeth yn ymwneud â Pholisi Iaith Y Cyngor.

1. Ffurflen etholiad Ewrop wedi mynd allan yn uniaith Saesneg. Eglurwyd bod y taflenni wedi eu hanfon allan gan gwmni allanol. Mae'r Cyngor yn edrych i mewn i hyn.
2. Aelod o staff wedi cyflwyno gwybodaeth mewn sesiwn yn Saesneg. Codwyd y mater gyda rheolwr y gwasanaeth a chadarnhawyd mai diffyg hyder yr unigolyn oedd wedi arwain at y sefyllfa. Mae'r rheolwr wedi cynnal trafodaeth gyda'r uned Iaith i gynnig hyfforddiant gan rannu linciau i dermau perthnasol o fewn y maes.

**SYLWADAU:**

Croesawyd y datblygiad gan fynegi bod angen cadw golwg ar y sefyllfa a dim llithro

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am 11:50yb

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **07 Tachwedd 2019** |
| **TEITL:** | **Rhaglen ARFOR** |
| **AWDUR:** | **Anwen Davies**<br><br>**Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar raglen ARFOR |

## 1. Cefndir

Yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru, yn Chwefror 2019 cadarnhaodd Gweinidog yr Economi, Ken Skates AC, fod £2 filiwn o gyllideb ar gael i Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i dreialu dulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg Mae'r arian ar gael hyd at ddiwedd 2020/21.

Mae Arweinyddion y pedwar Awdurdod Lleol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn trafod blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen.

Mae Bwrdd Rhaglen Arfor wedi cael ei sefydlu sydd yn cynnwys Arweinydd y pedair sir gyda sylwebyddion o Lywodraeth Cymru yn bresennol. Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Rhaglen, gofynnwyd i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer y pedair sir gan gydlynu'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd fod yn flaenoriaeth gan bob sir i gyfeirio mwyafrif y gyllideb i weithredu cynlluniau yn lleol, gan rannu'r gwersi a ddysgir er mwyn hysbysu cynlluniau pellach i'r dyfodol.

Cytunwyd i warchod peth o'r gyllideb ar gyfer llunio cynllun i ddatblygu'r economi a chreu swyddi yn ardal Arfor i'r dyfodol ac i gynnal rhai gweithgareddau peilot ar y cyd.

Mae £466,250 ar gael i'w fuddsoddi yng Ngwynedd dros gyfnod o dwy flynedd ar weithgareddau fyddai yn arwain at greu swyddi newydd fydd, yn ei dro, yn cynnal yr iaith yn ein cymunedau.

Mae Grŵp Llywio Arfor Gwynedd wedi ei sefydlu i adnabod pecyn o brosiectau arloesol i'w treialu dros y cyfnod sydd yn cyd-fynd â meini prawf y rhaglen. Mae trefniadau eisoes mewn lle i fesur effaith y gwahanol fathau o ymyraethau ar yr economi ac ar yr iaith.

Mae'r pecyn prosiectau yng Ngwynedd yn cynnwys:

- Cymorth i Fentro
- Gofod Gwneud a Gweithio
- Her Cymunedau Mentrus
- Llwyddo'n Lleol

Ceir gwybodaeth bellach am y prosiectau unigol hyn yn y cyfarfod.

**2 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?**

Gofynnir i'r Aelodau dderbyn diweddariad y swyddog a chynnig unrhyw sylwadau neu gwestiynau yn dilyn y cyflwyniad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **7 Tachwedd 2019** |
| **TEITL:** | **Dynodiadau Iaith** |
| **AWDUR:** | **Siôn Elwyn Hughes** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno diweddariad ar gynnydd y prosiect Dynodiadau Iaith a rhoi cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig argymhellion ar gyfer unrhyw gamau pellach |

## 1. Cefndir

1.1 Yn 2015 penderfynodd y Pwyllgor Iaith edrych ar y drefn gofnodi sgiliau iaith staff – bryd hynny mewn paratoad ar gyfer dyfodiad y Safonau Iaith yn 2016.

1.2 Ym mis Ionawr 2016 gwnaethpwyd penderfyniad pellach i adolygu gofynion ac amodau iaith swyddi'r Cyngor er mwyn gosod gofynion realistig ochr-yn-ochr â dyletswyddau'r swydd. Er enghraifft:

- **Athro/Athrawes**: Cadwyd y gofynion ar y lefel uchaf oherwydd natur y swydd
- **Cymhorthydd Hamdden**: Cadwyd y gofynion siarad a gwrando yn uchel er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd sgiliau llafar yn y swydd ond gostyngwyd y gofynion ysgrifennu gan nad oes angen i gymhorthydd hamdden ysgrifennu adroddiadau, cofnodion ac ati.

1.3 Yn 2017 dechreuwyd ail ran y prosiect, sef sicrhau bod cefnogaeth ar gael i aelodau cyfredol o staff naill ai gadw safon eu sgiliau Cymraeg neu gyrraedd gofynion iaith eu swydd os oedd bwlch yn bodoli.

1.3 Dechreuwyd trwy redeg peilot gydag Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn niwedd 2017. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anghenion yr Adran, a hefyd oherwydd eu hawydd i gydweithio.

1.4 Gweithiwyd yn agos gyda'r Pennaeth i fapio'r gwaith a phenderfynu ar y blaenoriaethau, a thrwy hynny trefnwyd hyfforddiant i 6 aelod o staff erbyn haf 2018.

1.5 Mae'r Adran bellach wedi cwblhau camau'r broses yn ei chyfanrwydd unwaith, ac erbyn hyn yn adolygu a diweddaru unrhyw anghenion yn rheolaidd gyda chefnogaeth y tîm Dynodiadau Iaith.

1.6 Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd o'r peilot yw pwysigrwydd cyfarfod Penaethiaid a Rheolwyr, a'u cynnwys yn y broses o'r dechrau un.

1.7 Yn ogystal â hynny, roedd bod yr adran a'r rheolwyr yn cymryd perchnogaeth o'r gwaith yn hanfodol bwysig i lwyddiant y prosiect.

## 2. Crynodeb o'r cyflwyniad

2.1 Yn dilyn y peilot gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd, aethpwyd ati i weithio gydag adrannau eraill yn Nhachwedd 2018.

2.2 Penderfynwyd blaenoriaethu gwasanaethau a gweithwyr rheng flaen er mwyn sicrhau bod y staff a ddaethai i gyswllt cyson gyda phobl Gwynedd yn gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg yn ôl dynodiadau iaith eu swyddi.

Ymysg yr adrannau a'r gwasanaethau a weithwyd â hwy gyntaf roedd:

- Plant a Chefnogi Teuluoedd: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Priffyrdd a Bwrdeistrefol: Gwasanaeth Safleoedd Ailgylchu
- Oedolion, Iechyd a Llesiant: Cartref Gofal Hafod Mawddach, Abermaw

2.3 Bellach rydym wedi ymweld â **64** gwasanaeth (a llawer ohonynt yn wasanaethau rheng flaen) ar draws y sefydliad ac wedi asesu **2108** o unigolion– **tua 30% o weithlu'r Cyngor**. Mae hyn yn gymysgedd o asesiadau wyneb-yn-wyneb, hunanasesiad ar-lein, neu farn rheolwr llinell.

2.4 O'r rheiny a aseswyd hyd yma, mae **93.3%** yn cyrraedd neu basio dynodiadau iaith eu swydd.

2.5 Er mwyn hwyluso'r broses asesu a chynyddu effeithlonrwydd y prosiect, crëwyd asesiad ar-lein yn fewnol a fyddai'n nodi lefel yr unigolyn yn seiliedig atebion i gwestiynau am allu ieithyddol. Mae'r gwiriwr lefel hwn yn cynnig rhywbeth unigryw i'r Cyngor, a hyd yn oed wedi denu diddordeb o sefydliadau a chynghorau eraill – y mwyaf nodedig ar hyn o bryd yw Cyngor Conwy.

2.7 Mae pob math o gefnogaeth, gan gynnwys cyrsiau gloywi mewnol, cyrsiau dysgu allanol, cyrsiau ar-lein ac apiau a gwefannau, yn cael ei gynnig yn barhaus i staff wella neu gynnal eu sgiliau Cymraeg.

2.8 Er mwyn cynnig ôl-ofal i dderbynwyr hyfforddiant, a chefnogi siaradwyr di-hyder neu sydd eisiau gwella'u Cymraeg trwy ddull gwahanol i ystafell ddosbarth, sefydlwyd y **Cynllun Cyfeillion** ym mis Mawrth 2018. Mae'r Cynllun hwn yn paru aelod o staff hyderus eu Cymraeg gydag aelod o staff sydd eisiau datblygu eu sgiliau iaith.

Mae'r pum Cyfaill yn cydweithio gyda staff ar hyn o bryd, ac mae'r Cynllun eisoes wedi llwyddo gydag aelod o staff Byw'n Iach.

### Camau nesaf

3.1 Gobeithir gorffen ymweld â gwasanaethau'r Adran Economi a Chymuned, Cefnogaeth Gorfforaethol ac Amgylchedd yn y misoedd nesaf (yn dibynnu ar ymateb y rheolwyr i'n ceisiadau i gyfarfod).

3.2 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Byw'n Iach i gynnig y gefnogaeth angenrheidiol i'r staff. Rydym eisoes wedi cytuno ar ddyddiadau hyfforddi yn ystod y misoedd nesaf lle bydd staff sydd angen cyrraedd y Dynodiadau Iaith yn mynychu.

3.3 Parheir i weithio gyda staff gofal mewn cartrefi gofal, yn bennaf ond nid yn gyfyngedig i dde'r sir, ond hefyd edrych i gyrraedd staff teithiol megis gweithwyr gofal cymunedol.

## 3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor

4.1 Croesewir sylwadau neu gwestiynau gan y Pwyllgor ar y gwaith hyd yma yn ogystal ag argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **07 Tachwedd 2019** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd Gymraeg 2018-19**<br>**Hawlio Cyfleoedd** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br>**Ymgynghorydd Iaith** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwynir adroddiad cryno ar ganfyddiadau'r Adroddiad Sicrwydd er mwyn i'r aelodau ystyried ei gynnwys ac unrhyw bwyntiau allai fod yn berthnasol ac allai arwain at gamau gweithredu i Gyngor Gwynedd. |

1. **Cefndir:**

1.1 Bob blwyddyn bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sydd yn ganlyniad gwaith ymchwil, arsylwi a holi grwpiau ffocws gan ei swyddogion, ac sy'n dangos eu canfyddiadau am lwyddiant sefydliadau i weithredu a chydymffurfio gyda'r Safonau.

1.2 Bydd y Comisiynydd yn dod i gasgliadau am lwyddiannau neu fethiannau i gydymffurfio gyda'r Safonau ar sail sawl peth:

i) Canfyddiadau'r comisiynydd yn dilyn gwaith monitro cwynion ac achosion penodol o fethiant i gydymffurfio.
ii) Arolygon barn ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd mewn grwpiau ffocws
iii) Gwaith arsylwi, cyfweliadau a cheisiadau gwybodaeth a thystiolaeth ar destunau penodol gyda sefydliadau

1.3 Nid yw'r adroddiad yn cyfeirio yn benodol at sefydliadau unigol – ar wahân i pan fydd yn cyfeirio at arferion da – ond yn hytrach yn cynnig darlun cyffredinol o lle mae sefydliadau arni o ran gweithredu'r safonau a'r hyn sydd angen gwella.

1.4 Cyhoeddwyd adroddiad sicrwydd diweddaraf y Comisiynydd dan y teitl **Hawlio Cyfleoedd**, yn ystod haf 2019, ac roedd yn edrych ar y berthynas rhwng gallu sefydliadau i warantu bod hawl yr unigolyn i wasanaethau Cymraeg yn cael ei fodloni a defnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau hynny.

1.5 Mae'r adroddiad yn gofyn i sefydliadau ystyried camau gweithredu mewn tri maes:

- Trefniadau mewnol cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth
- Cynyddu capasiti'r gweithlu er mwyn gwella darpariaeth
- Cymell pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg

1.6 Er nad yw yn adroddiad unigol ar gyfer Cyngor Gwynedd, felly, mae nifer o bwyntiau perthnasol ac o ddiddordeb yn codi, ac mae nifer o syniadau ymarferol a defnyddiol yn cael eu nodi – yn seiliedig ar arferion da mewn sefydliadau - sy'n ein sbarduno i edrych ar ein trefniadau ein hunain ac ystyried a oes lle i wella neu addasu. Er enghraifft, ceir cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at gofrestr risg a grwpiau rheoli prosiect ar gyfer y Safonau, a chanllawiau ar gyfer gweithredu yn unol a dewis iaith mewn cyfarfodydd.

## 2 Crynodeb o ganfyddiadau perthnasol yr Adroddiad Sicrwydd:

### 2.1 Sefyllfa gyffredinol

Un o brif ganfyddiad yr adroddiad yw bod perfformiad sefydliadau yn gwella yn raddol, ond bod angen hefyd bod yn wyliadwrus. Roedd y Comisiynydd yn gweld tystiolaeth bod y "*momentwm yn arafu*" ar gyfer rhai gwasanaethau.

Mae hon yn neges bwysig, ac yn ein atgoffa bod angen i ni weithio yn gyson i sicrhau bod pawb ar draws y Cyngor, ac yn enwedig felly Benaethiaid a Rheolwyr, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o safbwynt y Safonau. Mae rhai ymholiadau a dderbynnir gan yr uned iaith yn awgrymu bod angen edrych ar rannu negeseuon rheolaidd am ofynion y Safonau, er mwyn codi ymwybyddiaeth, a defnyddio'r datblygiad yn ein dealltwriaeth o'r safonau i gynnig arweiniad a gwybodaeth glir ar faterion penodol, megis y disgwyliadau wrth gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill.

### 2.2 Deall perfformiad y sefydliadau – gwirio a monitro (T: 46 Adran 3.1)

Nodir ar *dudalen 13* y Grynodeb Weithredol:

"*Rydym am weld sefydliadau'n datblygu dealltwriaeth o brofiad tebygol pobl sy'n defnyddio (neu'n ceisio defnyddio) eu gwasanaethau Cymraeg. Bydd hyn yn eu galluogi i addasu trefniadau er mwyn gwella profiadau*."

Mae hwn yn fater sydd wedi ei drafod yn y gorffennol, a nodwyd yn dilyn adroddiad sicrwydd diwethaf y Comisiynydd yn haf 2018 bod angen i ni ystyried gwneud mwy o weithgarwch i wirio gwasanaethau ar hap.

Gellir dadlau nad ydym yn gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaethau yn gyffredinol a defnyddwyr y "gwasanaethau Cymraeg" gan fod ein gwasanaethau oll ar gael yn ddwyieithog, ond mae angen i ni hefyd gadw meddwl agored a bod yn wyliadwrus o newidiadau yn arferion pobl er mwyn ystyried oes tactegau gwahanol y gallwn eu defnyddio i amlygu'r gwasanaethau Cymraeg a'r cynnig rhagweithiol.

Defnyddir pob cwyn neu ymholiad fel ffordd o gael persbectif gwahanol ar weithrediad, a byddwn yn ystyried unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliant neu newidiadau a ddaw yn sgil y cwynion hynny.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at ddefnyddio ffurflen hunanfonitro (*enghraifft Arfer Llwyddiannus Prifysgol Abertawe t:48*) fel ffordd o gasglu gwybodaeth reolaidd gan adrannau am gydymffurfiaeth. Byddai casglu gwybodaeth flynyddol fel hyn yn ddilyniant da i waith yr Awdit Iaith a gynhaliwyd wrth osod y Safonau, ac hefyd yn fodd o sicrhau bod ymwybyddiaeth am y safonau yn cadw ar flaenau meddyliau rheolwyr.

Cyfeirir ar *dudalen 49 (pwynt 3.1.8)* yr adroddiad at fewnoli'r Gymraeg i drefniadau rheoli perfformiad, ac at y gwahanol ddulliau y mae sefydliadau yn eu defnyddio i fonitro a gwella perfformiad yn gyffredinol. Mae'n nodi:

"*Dylai'r trefniadau hyn fewnoli'r Gymraeg, er mwyn manteisio ar systemau strwythuredig ar gyfer casglu gwybodaeth, sicrhau atebolrwydd, a delio a methiant. Lle nad yw hynny'n bosib, neu lle mae angen rhoi sylw manylach i'r Gymraeg, gellir sefydlu trefniadau cyffelyb ar wahân ar gyfer y Gymraeg*."

Mae llwyddiant y Polisi Iaith a'r egwyddor a osodir ynddo "Y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith", a bod y Cyngor am "brif-ffrydio'r iaith Gymraeg drwy ei holl waith a'i weithdrefn", yn sicrhau mai prin yw'r achlysuron o fethiant i gydymffurfio ac i gynnig gwasanaeth yn Gymraeg.

Serch hynny, efallai y dylid ystyried y sylw hwn a sut yr ydym yn defnyddio trefniadau rheoli perfformiad mewnol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn ac amserol wrth ddatblygu prosiectau a chynlluniau mawr ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwneud y gorau o rôl yr Aelodau Cabinet unigol ,ac nid yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb penodol am y Gymraeg yn unig, i sicrhau bod cynlluniau gan adrannau yn cyd-fynd gydag egwyddorion y Safonau a Chynllun Hybu'r Gymraeg ac yn ystyried sut maent yn mynd y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i fod yn helpu cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### 2.3 Arbenigwyr gweithredol (t:58 Adran 3.2)

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod:

"*adnoddau ac amser staff digonol yn cael ei neilltuo i gyflawni'r rôl yn effeithiol"*

...a...

"*bod y swyddogion mewn lleoliad addas yn y sefydliad, a gyda digon o statws, er mwyn cael perthynas dda ag adrannau a staff ar draws y sefydliad, a dylanwad cryf ar eu gwaith lle bo angen*"

Yn sicr mae symud diweddar y gwasanaeth iaith i fod yn rhan o'r gwasanaeth Democratiaeth yn rhoi cyfle i rôl y swyddog iaith fod mewn lleoliad cryfach o fewn y Cyngor ac yn cynnig

trosolwg o weithgareddau a phrif feysydd trafod strategol mewn modd nad oedd yn bosib fel gwasanaeth ar wahân.

Mae lleoliad dau swyddog iaith o fewn y tîm Dysgu a Datblygu hefyd yn sicrhau cyswllt rheolaidd gyda staff o bob rhan o'r Cyngor.

Mae gennym hefyd nifer o swyddogion sydd yn cymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain i sicrhau cydymffurfiaeth ac i ddylanwadu ar eraill. Mae tîm y we a'r tîm cyfathrebu yn enghreifftiau da o hyn, yn sicrhau bod deunyddiau yn cael eu cyhoeddi yn unol a'r Safonau, ac yn cynghori swyddogion eraill ar arfer gorau, gan ddim ond gysylltu gyda'r uned iaith yn achlysurol i wirio neu gael gadarnhad ar egwyddorion gweithredu.

Lle mae lle posib i wella, ac sydd yn plethu gyda'r pwynt a wneir uchod ynghylch rôl yr Aelodau Cabinet a Rheolwyr, yw wrth gymryd y cam ychwanegol a bod swyddogion gweithredol ac arbenigol yn cael eu cynnwys yn ddigon buan wrth gynllunio a gweithredu prosiectau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o bobl cyfle i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.

**2.4 Cymell pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg**

Mae casglu gwybodaeth ystyrlon am ddefnydd iaith unigolion wrth ddefnyddio gwasanaethau, a meddwl am ffyrdd o ddylanwadu ar eu defnydd, yn anodd, ac mae'r adroddiad yn cydnabod bod "*ymddygiad defnyddwyr yn gymhleth – wedi ei seilio ar oes o ragdybiaethau a phrofiadau blaenorol, ac yn dilyn patrymau seicolegol sy'n anodd eu newid.*"

Nid yw hon yn broblem newydd na dieithr. Mae'r adroddiad yn nodi bod mwyafrif y bobl a holwyd yn dal i ffafrio defnyddio'r Saesneg wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, gyda dim ond 33% (ar lefel Cymru gyfan) yn nodi y byddai'n well ganddynt ddelio gyda sefydliadau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.

O safbwynt Gwynedd, gallwn weld o'r ychydig dystiolaeth sydd gennym bod defnydd o'r Gymraeg yn uchel ymysg defnyddwyr wyneb yn wyneb, ac ar y ffon, lle mae cyswllt uniongyrchol gydag aelod o staff, ond bod arferion pobl wrth lenwi ffurflenni ac wrth ddefnyddio hunanwasanaeth ychydig yn wahanol.

Rydym yn edrych yn gyson ar ffyrdd o symleiddio ffurflenni a thaflenni er mwyn sicrhau eu bod mor hawdd a phosib i ddeall, ac mae'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg wedi bod yn edrych yn ddiweddar sefydlu arddull tŷ, ac ar ddefnyddio egwyddorion Cymraeg Clir, ond dylem hefyd ystyried pa ddulliau eraill y gallem ei defnyddio – ac yn enwedig o ran theori ymddygiad – i gynyddu defnydd o wasanaethau di-gyswllt.

**3. Argymhellion am gamau gweithredu:**

**Cyffredinol**

- Edrych ar gynnal sesiynau gwybodaeth ac atgoffa er mwyn sicrhau bod rheolwyr a phenaethiaid yn ymwybodol o **holl** ofynion y Safonau a sicrhau negeseuon cyson am feysydd penodol.

**Deall perfformiad**

- Adnabod ac ystyried dulliau gwahanol o ddeall perfformiad y Cyngor o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg
- Ystyried casglu gwybodaeth gan adrannau unigol am gydymffurfiaeth drwy holiadur hunan-fonitro

**Arbenigwyr**

- Codi ymwybyddiaeth am ymgynghorol y swyddogion iaith

**Cymell defnydd**

- Ystyried pa ddata fyddai'n ddefnyddiol i ni ei gasglu er mwyn dangos defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cymraeg.
- Ystyried defnydd o theori ymddygiad i ddylanwadu ar ddefnydd gwasanaethau di-gyswllt

4. **Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?**

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, a'r argymhellion gweithredu a nodir gan y Swyddog, gan gynnig unrhyw sylwadau perthnasol neu argymhellion o ran blaenoriaethu gwaith.